# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 15 Mai 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(64)

### 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13:30.

Gofynnwyd cwestiynau 1-11, a chwestiwn 13.  Tynnwyd cwestiwn 12 yn ôl. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.11

### 3. Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Trawsnewid—Cyflawni ar y Cyd

Dechreuodd yr eitem am 14.16

### 4. Rheoliadau Iechyd Meddwl (Atgyfeiriadau Gofal Sylfaenol a Chymhwysedd i Gynnal Asesiadau Iechyd Meddwl Sylfaenol) (Cymru) 2012

Dechreuodd yr eitem am 14.49

**NDM4983 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Iechyd Meddwl (Atgyfeiriadau Gofal Sylfaenol a Chymhwysedd i Gynnal Asesiadau Iechyd Meddwl Sylfaenol) (Cymru) 2012 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Ebrill 2012.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 5. Dadl ar Law yn Llaw at Iechyd – adroddiad cynnydd chwe mis

Dechreuodd yr eitem am 14.53

**NDM4981 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r cynnydd wrth weithredu "Law yn Llaw at Iechyd"

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys ar ddiwedd y cynnig:

"ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) dangos atebolrwydd llwyr am y GIG; a

b) amlinellu'n glir y rhesymau ariannol a chlinigol dros unrhyw gynigion i ad-drefnu ysbytai.

**Derbyniwyd y gwelliant yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gohiriwyd gweddill y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**Gwelliant 2 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod agenda Llywodraeth Cymru, 'Law yn Llaw at Iechyd' yn cynnwys cynlluniau i leihau nifer y safleoedd ysbytai sy'n darparu gwasanaethau damweiniau ac achosion brys 24/7 o dan law meddyg ymgynghorol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 21 | 0 | 23 | 44 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y consensws trawsbleidiol yn erbyn israddio ysbytai lleol a gwasanaethau iechyd ar draws Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 21 | 0 | 24 | 45 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 – Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi manylion llawn unrhyw newidiadau arfaethedig i ddarpariaethau gwasanaethau'r GIG o ganlyniad i 'Law yn Llaw at Iechyd', cyn gynted â phosibl er mwyn gallu hwyluso trafodaethau deallus yn lleol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 45 | 0 | 0 | 45 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM4981 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r cynnydd wrth weithredu "Law yn Llaw at Iechyd" ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) dangos atebolrwydd llwyr am y GIG; a

b) amlinellu'n glir y rhesymau ariannol a chlinigol dros unrhyw gynigion i ad-drefnu ysbytai.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi manylion llawn unrhyw newidiadau arfaethedig i ddarpariaethau gwasanaethau'r GIG o ganlyniad i 'Law yn Llaw at Iechyd', cyn gynted â phosibl er mwyn gallu hwyluso trafodaethau deallus yn lleol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **35** | **0** | **10** | **45** |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

## 6. Dadl ar bolisi Teithio Byw Llywodraeth Cymru

Dechreuodd yr eitem am 15.41

**NDM4982 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried polisïau teithio llesol Llywodraeth Cymru, a photensial teithio llesol o ran mynd i'r afael â thlodi, gwella iechyd y cyhoedd a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn nodi â phryder nad yw Cymru, ar hyn o bryd, ar y llwybr cywir i gyrraedd targedau allweddol a gaiff eu diffinio yng Nghynllun Gweithredu Cerdded a Beicio Llywodraeth Cymru.

**Derbyniwyd y gwelliant yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrian De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r sylwadau a wnaeth Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd yn ei Adroddiad Blynyddol cyntaf, y bu cynnydd y Llywodraeth yn ansicr o ran annog newid ymddygiad tuag at ddewisiadau teithio doethach.

**Derbyniwyd y gwelliant yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi adroddiad blynyddol ar effaith gronnol ei mentrau teithio llesol ar allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru.

**Derbyniwyd y gwelliant yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 4 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod llwybrau cerdded a llwybrau beicio lleol wedi'u cysylltu â'i gilydd a chanolfannau teithio eraill er mwyn creu llwybrau rhanbarthol a chenedlaethol hyfyw.

**Derbyniwyd y gwelliant yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 5 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylid ei gwneud yn orfodol i bob datblygiad cynllunio mawr ystyried yr angen am fynediad rhwydd i gerddwyr a beicwyr.

**Derbyniwyd y gwelliant yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**NDM4982 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried polisïau teithio llesol Llywodraeth Cymru, a photensial teithio llesol o ran mynd i'r afael â thlodi, gwella iechyd y cyhoedd a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Yn nodi â phryder nad yw Cymru, ar hyn o bryd, ar y llwybr cywir i gyrraedd targedau allweddol a gaiff eu diffinio yng Nghynllun Gweithredu Cerdded a Beicio Llywodraeth Cymru.

Yn nodi'r sylwadau a wnaeth Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd yn ei Adroddiad Blynyddol cyntaf, y bu cynnydd y Llywodraeth yn ansicr o ran annog newid ymddygiad tuag at ddewisiadau teithio doethach.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi adroddiad blynyddol ar effaith gronnol ei mentrau teithio llesol ar allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod llwybrau cerdded a llwybrau beicio lleol wedi'u cysylltu â'i gilydd a chanolfannau teithio eraill er mwyn creu llwybrau rhanbarthol a chenedlaethol hyfyw.

Yn credu y dylid ei gwneud yn orfodol i bob datblygiad cynllunio mawr ystyried yr angen am fynediad rhwydd i gerddwyr a beicwyr.

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Cyfnod Pleidleisio**
Dechreuodd y Cyfnod Pleidleisio am 16.25

Daeth y cyfarfod i ben am 16:29

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, ddydd Mercher, 16 Mai 2012**